



Ar Goll yn y Jyngl


Roderick Hunt

Alex Brychta

Coeden
Ddarllen
Rhydychen



Tylluanod



DRAKE



Fory byddai'n ben-blwydd Mam.

Roedd gan Dids focs o siocledi iddi.

Roedd Onw wedi gwneud mwnci iddi yn
yr ysgol.

Doedd Cad ddim yn gwybod beth i'w gael.



Gofynnodd Cad i fam Anneena ei helpu hi
i brynu planhigyn.
Aethon nhw i dŷ gwydr mawr.
Roedd y tŷ gwydr yn boeth ac yn llawn
planhigion.


“Am blanhigion!” meddai Cad.
“Mae hi fel jyngl yma.
Wn i ddim p’run i’w brynu.”
O’r diwedd cafodd hyd i un roedd hi’n ei hoffi.
“Pryna i hwn i Mam,” meddai hi.




Y diwrnod wedyn oedd pen-blwydd Mam a rhoddodd y plant eu hanrhegion iddi. Roedd hi'n eu hoffi i gyd. "Diolch," meddai hi. "Dyma blanhigyn hyfryd, Cad!"



Roedd gan Dad anrheg i Mam. Planhigyn oedd o. "Wyddwn i ddim fod gan Cad blanhigyn hefyd," meddai Dad. "Dim ots gen i," meddai Mam.



Daeth Anneena i chwarae efo Cad a Dids.
“Dyma anrheg gan Mam,” meddai hi.
Daeth mam Wilma draw â phlanhigyn hefyd.
“Diolch,” meddai Mam. “Dwi’n dotio at blanhigion.
Mae hi fel jyngl yma!”



Aeth y plant i chwarae i ystafell Cad.
Edrychodd Anneena ar y tŷ bychan.
“Gawn ni antur hud?” gofynnodd.
“Os bydd yr allwedd yn disgleirio,” meddai Onw.
Ac ar hynny dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.



Aeth yr hud â nhw i jyngl.

Roedd y jyngl yn llawn planhigion.

“Mae’n wych,” meddai Cad. “Edrychwch ar hwnna;
mae’n ddeg gwaith gymaint â’r un roddais i
i Mam.”

Gwelson nhw fwnci mewn coeden.

Roedd yn neidio i fyny ac i lawr ar gangen.

“Mae’r mwnci yna’n edrych yn flin,” meddai Onw.

“Dydi o ddim yn ein hoffi ni.”


“Mae o’r un ffunud â thi,” meddai Dids.



Roedd y mwnci yn flin efo'r plant.
Ysgydwodd y gangen.
Yna dechreuodd daflu pethau atyn nhw.
"Fedrwn ni ddim aros yma," meddai Cad. "Dowch!"



Rhedon nhw drwy'r jyngl, ond
yn sydyn, stopiodd Dids.
"O na!" meddai. "Edrychwch ar hon."
Roedd neidr fawr o'u blaenau.
"Dowch y ffordd arall," meddai Dids.



Daethon nhw at afon.

Roedd tri aligator yn cysgu ar y lan.

“Peidiwch â’u deffro nhw,” meddai Onw.

“Gallen nhw wylltio.”

“Gallen nhw dy ffansio di fel cinio,” meddai Cad.



Yn sydyn syrthion nhw i rwyd fawr.

Cododd nhw i fyny yn yr awyr.

“O help!” galwodd Anneena.

“Rydan ni mewn trap.”




Roedd y plant yn hongian yn y rhwyd.
Trap i ddal anifeiliaid oedd y rhwyd.
“Help! Help!” galwodd y plant.
“Gollyngwch ni i lawr!” galwodd Onw.

Daeth dyn a dynes o'r coed.
Fforwyr oedden nhw.
“Peidiwch â phoeni,” meddai'r ddynes.
“Cawn ni chi i lawr yn fuan.”



“Be ydach chi’n ei wneud yn y jyngl?”
gofynnodd y dyn. “Ydach chi ar goll?”
“Ydan,” atebodd Cad. “Dwi’n meddwl ein bod ni.”
“A ninnau hefyd,” meddai’r ddynes. “Ond rydan ni
ar goll ers blynyddoedd.”

Dangosodd lun iddyn nhw.
“Rydan ni’n chwilio am y lle yma,” meddai hi.
“Y Ddinas Goll ydi ei enw. Does neb yn byw yno.
Mae wedi bod ar goll ers blynyddoedd ar
flynyddoedd.”



Roedd y plant eisiau helpu'r fforwyr
i gael hyd i'r Ddinas Goll.
"Efallai y cawn ni hyd iddi heddiw," meddai Onw.
"Dydw i ddim yn meddwl," meddai'r dyn.
"Buon ni'n chwilio am flynyddoedd."

Cyrhaeddwn nhw bont grog.
"Efallai fod y Ddinas Goll draw acw," meddai
Cad. "Dowch inni weld."
Cychwynnon nhw ar draws y bont.
"Gobeithio ei bod hi'n ddiogel," meddai Onw.




Cawson nhw hyd i gwch ar lan
yr afon.

Roedd y cwch yn llawn dŵr.


“Da iawn!” meddai’r fforwyr.

“Collon ni’r cwch hwn flynyddoedd yn ôl.”



Aethon nhw i mewn i’r cwch a rhwyfo i
lawr yr afon.

“Dau aligator!” meddai Dids. “Gobeithio nad ydi
hi’n amser cinio iddyn nhw.”




Cyrhaeddwn nhw raeadr.

Fedrai'r fforiwr ddim stopio'r cwch.

Roedd y rhwyf wedi torri.

"Gwylwch!" galwodd.

"Rydan ni'n siwr o wlychu."




Aeth y cwch drwy'r raeadr.

"O help," meddai Anneena. "Mae'n gas gen i wlychu."


"Mae gwlychu'n well na chael dy fwyta gan aligator," meddai Dids.



Y tu cefn i'r rhaeadr roedd grisiau.
Roedd y grisiau yn mynd i fyny ac i fyny'n bell.
Allai neb weld pa mor bell.
"Efallai mai dyma'r ffordd i'r Ddinas Goll,"
meddai'r ddynes. "Dowch!"



Wrth iddyn nhw ddringo'r grisiau,
hedfanodd ystlumod heibio.
"Os mai dyma'r ffordd i'r ddinas, gwela i
sut yr aeth hi ar goll," meddai Anneena.
"Mae hi mor bell i fyny."




“Dyma’r Ddinas Goll!” gwaeddodd y fforwyr.
“Rydan ni wedi cael hyd iddi o’r diwedd.”
Taflodd y dyn ei het i’r awyr a dawnsiodd ei wraig.
“Gwyddwn i y bydden ni’n dod o hyd iddi heddiw,”
meddai Onw.

Doedd neb wedi bod yn y ddinas ers
blynyddoedd.
Roedd planhigion a choed ym mhobman.
Tynnodd Cad blanhigyn allan o wal. “Mae hwn
fel yr un roddais i i Mam,” meddai hi.




Aethon nhw at adeilad mawr ac
agor y drysau.
“O edrychwch!” meddai pawb.
Roedd popeth yn yr adeilad wedi ei
wneud o aur.

Roedd y llawr o aur a'r waliau o aur.
Roedd grisiau aur yn mynd i fyny at
orsedd aur.
“Am le gwych!” meddai Anneena.
“Mae aur ym mhobman.”



Eisteddodd Onw ar yr orsedd aur.
Neidiodd mwnci i lawr y tu cefn iddo.
“Edrychwch arna i!” meddai Onw.
“Edrychwch ar y mwnci,” meddai Cad.
“P’run ydi’r mwnci?” gofynnodd Dids.



Yn sydyn dechreuodd yr allwedd ddisgleirio.
“Mae’n amser mynd adref,” meddai Dids.
“Da bo chi,” meddai’r fforwyr. “Diolch i chi
am ein helpu ni i gael hyd i’r Ddinas Goll.
Hoffen ni petai gynnon ni allwedd hud.”



Aeth yr hud â'r plant adref.

Roedd y planhigyn a gafodd hi yn y Ddinas Goll
gan Cad o hyd.

“Rho i o yn jyngl Mam,” meddai hi.

“Gwn i lle cawn ni fwnci hefyd.”

8 Ar Goll yn y Jyngl



Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 7

Stori gan
Roderick Hunt

Lluniau gan
Alex Brychta

Addasiad Cymraeg gan
Emily Huws



Tylluanod Cam 6

- 1 Yn yr Ardd
- 2 Onw a'r Cawr
- 3 Y Wibdaith
- 4 Gwlad y Deinosoriaid
- 5 Robin Hwd
- 6 Y Gist Drysorau

Tylluanod Cam 7

- 7 Y Blaned Goch
- 8 Ar Goll yn y Jyngl
- 9 Twll yn y To
- 10 Colli Allwedd

Rhagor o Dylluanod Cam 6

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

Rhagor o Dylluanod Cam 7

Y Draffordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaid
Antur Rufeinig
Y Jig-so

Tylluanod

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1987
Ⓢ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
Ⓢ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-257-5



9 790861 742577

ISBN 0 86 174257 5

DRAKE